O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2289 (Cy. 239)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed i Westy'r Rhaeadr Ewynnol, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 9 Medi 2011

Yn dod i rym 19 Medi 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Betws-y-coed i Westy'r Rhaeadr Ewynnol, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 19 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn derfynol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt wrth yr arwydd cyfyngiad cyflymder 30 mya i'r gorllewin o Fetws-y-coed hyd at bwynt 5 metr i'r gorllewin o'r fynedfa i faes parcio Gwesty'r Rhaeadr Ewynnol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.